

Taflen ffeithiau Ofcom ar dderbyniad. Rhif 3

Pam y bydd rhai pobl yn derbyn mwy o sianelau teledu digidol na'i gilydd?

Crynodeb

- 1.1 Bydd pawb bron yn gallu derbyn sianelau teledu gwasanaeth cyhoeddus y DU ar deledu daearol digidol ar ôl newid i'r digidol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus hwn yn cynnig tua 17 o sianelau, gan gynnwys sianelau gan y BBC, ITV a Channel 4. Ni fydd cynifer o sianelau eraill ar gael, gan eu bod yn sianelau masnachol.

Derbyniad a gwasanaethau ar deledu digidol

- 1.2 Y newid i'r digidol yw'r broses o newid gwasanaethau teledu'r DU o rai analog i rai cwbl ddigidol. Bydd y newid yn digwydd fesul rhanbarth gan ddechrau yn 2008 a dod i ben yn 2012. Er mwyn dal i dderbyn teledu ar ôl y newid i'r digidol, bydd angen i ddefnyddwyr nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod ddiweddarau eu cyfarpar teledu presennol fel bod modd iddynt dderbyn signalau digidol.
- 1.3 Mae llawer o wahanol ffyrdd o dderbyn teledu digidol, ac un o'r rhain yw drwy erial. Gelwir hyn yn deledu daearol digidol, a darperir gwasanaethau gan gonsortwm o ddarlledwyr sy'n dwyn yr enw Freeview. Mae ffyrdd eraill o dderbyn teledu digidol, gan gynnwys lloeren (talu neu ddi-dâl), cebl, band eang, yn ogystal â gwasanaethau y telir yn ychwanegol amdanynt ar deledu daearol digidol. Mae pob un o'r rhain yn darparu pecynnau gwahanol o sianelau i'r defnyddwyr. O ganlyniad, bydd nifer y sianelau a dderbynnir yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar yr opsiwn a ddewisir.
- 1.4 Ar gyfer gwylwyr sy'n dewis derbyn gwasanaethau drwy eu herial, mae teledu daearol digidol yn cynnwys chwe bwndel o sianelau a elwir yn amlblecsau. Mae tri o'r rhain yn amlblecsau **gwasanaeth cyhoeddus** a thri arall yn amlblecsau **masnachol**.
- 1.5 Pan fydd y newid i'r digidol yn digwydd, bydd y tri amlblecs gwasanaeth cyhoeddus ar gael i gynifer o bobl ag sy'n derbyn teledu analog yn awr. Gwneir hyn drwy addasu pob trosglwyddydd sy'n trosglwyddo teledu analog ar hyn o bryd, 1,154 ohonynt, fel eu bod yn trosglwyddo'r amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus¹. Bydd yr amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus wedi gwario miliynau o bunnoedd o arian cyfalaf er mwyn ymestyn amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus i'r trosglwyddyddion hyn. Bydd hyn yn golygu bod y gwasanaethau sy'n cael eu trosglwyddo gan yr amlblecsau gwasanaeth cyhoeddus ar gael i 98.5% o'r boblogaeth.

¹ Mae'n bosib na fydd angen ambell un o'r rhain ar gyfer teledu daearol digidol gan eu bod yn cywiro problemau derbyniad analog na fyddant yn codi gyda theledu daearol digidol

- 1.6 Bydd y gwasanaethau a fydd ar gael ar y tri amblecs gwasanaeth cyhoeddus hyn yn cynnwys pob un o'r prif sianelau gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd ar deledu analog – BBC ONE, BBC TWO, ITV 1, Channel Four, S4C yng Nghymru, a Five. Byddant hefyd yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol, megis BBC THREE, BBC FOUR, ITV 2, ITV 3, E4, a More 4, yn ogystal â llawer o wasanaethau radio a thestun. Rydym yn disgwyl y bydd rhagor o wasanaethau ar gael ar yr amblecsau gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y newid i'r digidol, er enghraifft pedair sianel mewn Manlyder Uwch erbyn 2012².
- 1.7 Rhestrir y gwasanaethau digidol sydd ar gael ar hyn o bryd i wylwyr ar y tri amblecs gwasanaeth cyhoeddus yn y tabl isod. Gall nifer y sianelau, yn enwedig y gwasanaethau sydd ar gael arnynt, amrywio wrth i ddarlledwyr addasu'r gwasanaethau a gynigir ganddynt. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng rhanbarthau. Drwy gydol y cyfnod o newid i'r digidol bydd nifer y cartrefi sy'n gallu derbyn y tri amblecs darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynyddu a bydd ystod y sianelau a'r gwasanaethau sydd ar gael arnynt yn esblygu.

Gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ar analog a theledu daearol digidol

| Gwasanaethau analog presennol | Y gwasanaethau teledu daearol digidol sydd ar gael ar hyn o bryd ar y tri amblecs darlledu gwasanaeth cyhoeddus * |
|---|--|
| BBC ONE BBC TWO ITV 1 Channel Four (nid yng Nghymru) S4C (Cymru) Five (tua 80% o'r boblogaeth) Rhai gwasanaethau testun | Tua 17 o sianelau teledu mewn Manlyder Safonol: BBC ONE BBC TWO BBC THREE / CBBC BBC News 24 BBC FOUR / Cbeebies BBC Parliament Mae 3 sianel yn cynnig BBCi (gwasanaethau botwm coch) a Community ITV 1 ITV 2 ITV 3 ITV 4 Channel 4 E4 More 4 C4 +1 Tua 12 gwasanaeth radio a 3 gwasanaeth testun megis Teletestun Mae Ofcom yn disgwyl y bydd Five ar gael ym mhob rhan o'r DU ar ôl y newid i'r |

² Bydd arnoch angen y cyfarpar priodol i wyllo'r rhain, gan gynnwys teledu sy'n barod ar gyfer Manlyder Uwch a derbynnydd teledu daearol digidol Manlyder Uwch. Rydym yn disgwyl y bydd yr holl gyfarpar sydd eu hangen ar gael ar y farchnad o 2009/10 ymlaen.

*amcangyfrif yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Bydd 98.5% o'r boblogaeth yn gallu derbyn teledu daearol digidol pan fydd y newid i'r digidol wedi'i gwblhau. Gall un sianel gynnwys mwy nag un gwasanaeth. Er enghraifft, mae BBC THREE yn rhannu sianel gyda CBBC – nid ydynt ar gael yr un pryd ac, o ganlyniad, maent yn cael eu dangos ochr yn ochr ar y rhestr.

- 1.8 Gwasanaethau masnachol yw'r tri amblecs arall, ac nid yw'n ofynnol iddynt drosglwyddo gwasanaeth cyhoeddus. Mater masnachol i weithredwyr yr amblecsau hynny yw penderfynu pa wasanaethau y byddant yn eu trosglwyddo, ac ym mha rannau o'r wlad y byddant yn darlledu. Gweithredwyr yr amblecsau hyn yw SDN (un o is-gwmnïau ITV ccc), a National Grid Wireless. Fel gweithredwyr amblecsau, mae'r cwmnïau hyn yn ddarostyngedig i reoleiddio cyfyngedig yn unig gan Ofcom.
- 1.9 Ar hyn o bryd mae'r tri amblecs masnachol yn trosglwyddo oddeutu 20 o sianelau teledu, yn ogystal â rhai gwasanaethau radio a thestun. Bydd y sianelau hyn yn newid yn aml. Ar hyn o bryd, maent yn cynnwys gwasanaethau teledu megis Dave, E4+1 (sianel E4 yn cael ei dangos awr yn ddiweddarach), ITV2+1 (ITV2 yn cael ei dangos awr yn ddiweddarach), Virgin 1, The Hits, The Music Factory a Five US, yn ogystal â rhai gwasanaethau radio a thestun.
- 1.10 Mae'r amblecsau masnachol hyn ar gael i tua 73% o boblogaeth y DU ar hyn o bryd. Mae rheoliadau Ofcom yn nodi na allant gynnig llai o ddarpariaeth ar adeg y newid i'r digidol, ond mater iddynt hwy yw penderfynu i ba raddau y maent yn ehangu eu darpariaeth. Maent wedi penderfynu adeiladu rhwydwaith darlledu a fydd yn caniatáu iddynt gyrraedd tua 90% o boblogaeth y DU ar ôl y newid i'r digidol. Maent wedi dod i'r casgliad na allant gyfiawnhau'r buddsoddiad sylweddol iawn mewn darlledu teledu daearol digidol sydd ei angen er mwyn cyrraedd y 10 y cant sy'n weddill o boblogaeth y DU.
- 1.11 Fodd bynnag, bydd gan y rhan fwyaf o'r gwylwyr na allant dderbyn y gwasanaethau masnachol hyn drwy Freeview opsiynau eraill er mwyn derbyn ystod ehangach o sianelau, megis gwasanaethau lloeren (gan gynnwys gwasanaethau heb danysgrifio, sydd ar gael gan Sky a Freesat), cebl a band eang.

Pam nad yw amblecsau masnachol yn cyrraedd cynifer o gartrefi â'r amblecsau gwasanaeth cyhoeddus?

- 1.12 Mae dau reswm pwysig pam nad yw amblecsau masnachol yn cyrraedd cynifer o gartrefi â'r amblecsau gwasanaeth cyhoeddus.
- 1.13 Yn gyntaf, mae adeiladu rhwydwaith darlledu sy'n cyrraedd 98.5% o'r boblogaeth yn gostus iawn. Bydd y amblecsau gwasanaeth cyhoeddus yn darlledu o dros 1,150 o drosglwyddyddion a byddant wedi gwario miliynau o bunnoedd er mwyn diweddarau'r rhwydwaith. Gall y rhwydweithiau masnachol gyrraedd tua 90% o'r boblogaeth am lai o gost, drwy ddefnyddio dim ond 80 o brif safleoedd trosglwyddyddion. Mae adeiladu rhwydweithiau sy'n sicrhau derbyniad llawn mewn ardaloedd bryniog a mynyddog yn neilltuol o gostus, gan fod angen llawer mwy o drosglwyddyddion ar gyfartaledd i sicrhau derbyniad effeithiol ym mhob ardal nag sydd eu hangen mewn rhannau eraill o'r wlad.

- 1.14 Mater masnachol i SDN a National Grid Wireless yw penderfynu faint pellach y maent am ymestyn eu rhwydweithiau, gan sicrhau cydbwysedd rhwng costau gwneud hynny a'r nifer ychwanegol o gartrefi y gellid eu cyrraedd.
- 1.15 Yn ail, mae cyfyngiadau rhyngwladol pwysig ar dderbyniad, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu'n cymdogion dros y môr, sef Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd.
- 1.16 Mae'r cyfyngiadau hyn yn codi gan fod signalau teledu'n croesi ffiniau, ac yn galw am waith cynllunio rhyngwladol. Nid oes digon o amleddau ar gael er mwyn i'r holl amblecsau fod ar gael ym mhob rhan o'r DU – rhaid inni dderbyn cyfyngiadau mewn rhai ardaloedd, ac mae hyn yn wir am wledydd eraill hefyd.
- 1.17 Mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio'n fwyaf penodol ar orllewin Cymru, Gogledd Iwerddon, ac ardaloedd arfordirol yn Nwyrain Anglia ac arfordir de Lloegr (e.e. Caint a Sussex).

Oes modd cael mwy o fanylion ynglŷn â derbyniad tebygol amblecsau mewn gwahanol rannau o'r DU?

- 1.18 Mae'r trosglwyddyddion nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y gweithredwyr masnachol i gyd yn orsafoedd trosglwyddo, sy'n cael eu gosod er mwyn ategu'r derbyniad o'r prif drosglwyddyddion sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae angen y gorsafoedd trosglwyddo hyn yn aml mewn rhanbarthau anghysbell neu fynyddig, yn ogystal â rhai ardaloedd trefol lleol lle mae adeiladau neu nodweddion daearyddol (bryniau neu ddyffrynnoedd) yn atal y signal o'r prif drosglwyddyddion. Yn gyffredinol, mae cysylltiad cryf iawn rhwng ardaloedd sydd â phoblogaeth wasgareddig a dibyniaeth ar orsafoedd trosglwyddo. Mae'r gorsafoedd trosglwyddo hyn fel rheol yn gwasanaethu ardaloedd sydd â phoblogaeth fach.
- 1.19 Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrifon sydd ar gael ar gyfer derbyn amblecsau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 1.20 Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r ffactorau a nodwyd uchod. Mae llai o dderbyniad mewn rhanbarthau bryniog a mynyddig, a lle mae rhwydweithiau'n llawer drytach i'w hadeiladu a dwysedd y boblogaeth yn llawer is. Mae llai o dderbyniad hefyd mewn ardaloedd sy'n fwy agored i gyfyngiadau rhyngwladol. Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod derbyniad yn is na'r cyfartaledd mewn rhai rhannau o Loegr. Er enghraifft, rhagfynegir mai tua 80% o gartrefi rhanbarthau Meridian ac Anglia fydd yn gallu derbyn y tri amblecs masnachol ar ôl newid i'r digidol. Mae hyn yn cymharu â derbyniad rhagddisgwyliedig o 73% ar gyfer Cymru, 88% ar gyfer yr Alban a 75% ar gyfer Gogledd Iwerddon.

| Derbyniad rhagddisgwyliedig – canran y cyfeiriadau (ffigurau Ionawr 2008) | | | | |
|--|---------------|-----------------|--------------|-------------------------|
| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
| Derbyniad amblecsau darlledu gwasanaeth cyhoeddus | | | | |
| Derbyniad analog cyn newid i'r digidol | 98.7% | 97.2% | 96.7% | 97.6% |
| Amblesau gwasanaeth cyhoeddus ar ôl newid i'r | 98.9% | 98.8% | 97.8% | 97.5% |

| | | | | |
|--|-----|-----|-----|-----|
| digidol | | | | |
| Derbyniad pob un o'r chwech amblecs | | | | |
| Derbyniad teledu daearol digidol cyn newid i'r digidol (ar gyfer pob un o'r 6 amblecs) | 73% | 82% | 57% | 58% |
| Derbyniad teledu daearol digidol ar ôl newid i'r digidol (ar gyfer pob un o'r 6 amblecs) | 93% | 88% | 73% | 75% |
| Canran y cynnydd o'r derbyniad teledu daearol digidol cyn newid i'r digidol yn y nifer a fydd yn derbyn y chwech amblecs | 20% | 6% | 16% | 17% |

Sut y bydd pobl yn gallu darganfod pa wasanaethau y gallant eu derbyn?

- 1.21 Digital UK yw'r corff sy'n gyfrifol am arwain y broses o'r newid i'r digidol ac am hysbysu defnyddwyr pa ddewisiadau sydd ar gael iddynt ar adeg y newid i'r digidol, gan gynnwys pa sianelau fydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd, fel bod defnyddwyr yn gallu gwneud penderfyniadau deallus ynglŷn â pha wasanaeth sy'n gweddu orau i'w gofynion. Nid yw Digital UK yn gysylltiedig ag Ofcom.
- 1.22 Dylai gwylwyr sy'n awyddus i gael gwybod pa opsiynau derbyn sy'n cael eu rhagfynegi ar eu cyfer hwy yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl y newid i'r digidol gysylltu â Digital UK. Gall Digital UK gynnig cyngor yn seiliedig ar gyfeiriad neu gôd post dros y ffôn ar 08456 50 50 50 neu ar eu gwefan yn www.digitaluk.co.uk.
- 1.23 Bydd modd i wylwyr holi Digital UK hefyd a fyddai'n bosib iddynt dderbyn mwy o opsiynau drwy ddefnyddio trosglwyddydd gwahanol i'r un maent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen i rai gwylwyr sy'n dewis yr opsiwn hwn gael eerial gwell.
- 1.24 Ar sail y cyngor a roddwyd gan Digital UK, gall pobl benderfynu a ydynt am newid i deledu daearol digidol, neu ddewis llwyfan arall, megis lloeren (talu neu ddi-dâl), cebl neu fand eang. Bydd y llwyfannau amgen hyn yn cynnwys ystod ehangach o sianelau na'r gwasanaeth a ddarperir drwy'r tri amblecs teledu daearol digidol gwasanaeth cyhoeddus.

A fydd gweithredwyr y amblecsau masnachol yn ceisio cyrraedd mwy o gartrefi yn dilyn y newid i'r digidol?

- 1.25 Byddai Ofcom yn falch o weld y gweithredwyr masnachol yn ymestyn rhagor ar y ddarpariaeth, ac rydym yn barod i helpu i hwyluso hyn, er enghraifft, drwy'n gwaith manwl ym maes cynllunio'r defnydd o sbectwm gan rwydweithiau darlledu. Fodd bynnag, mater masnachol i'r gweithredwyr benderfynu yn ei gylch yw ymestyn rhagor ar y ddarpariaeth.

Ofcom Mawrth 2008